# GWEITHIWR YMGYSYLLTU LLES IEUENCTID

Mae TGP Cymru yn un o'r elusennau blaenllaw yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Mae gwasanaethau TGP Cymru yn cael eu hariannu gan sawl cyllidwr ac yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.

**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau i Deuluoedd

**Yn atebol i:** Uwch Ymarferydd Lles Ieuenctid

**Lleoliad:** Mae holl swyddi TGP Cymru wedi'u lleoli gartref gyda chyfleoedd i weithio mewn swyddfa yng Nghaerdydd ac Abertawe.

**Pwrpas y rôl:**
Darparu cefnogaeth cymheiriaid i bobl ifanc a chefnogi'r Gwasanaeth Lles Ieuenctid yn eu hymgysylltiad â ffoaduriaid a cheiswyr lloches 16-25 oed yng Nghaerdydd ac Abertawe (2 swydd ar wahân).

Bydd hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn cael eu darparu.

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau:**

- Defnyddio eich profiad eich hun i godi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd dros y Gwasanaeth Lles Ieuenctid ymhlith pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol perthnasol
- Ymgysylltu â phobl ifanc a meithrin perthnasoedd sy'n eu galluogi i gael mynediad at y Gwasanaeth Lles Ieuenctid
- Darparu cefnogaeth mentora cymheiriaid i bobl ifanc a nodwyd
- Cefnogi ymarferwyr y Gwasanaeth Lles Ieuenctid i helpu i ddatblygu sgiliau pobl ifanc drwy helpu gyda'u nodau e.e. eu helpu i chwilio am lety, eu helpu i chwilio am waith gwirfoddol, eu helpu i ddod o hyd a chael mynediad i weithgareddau yn y gymuned
- Cyd-hwyluso gweithdai a gweithgareddau grŵp
- Datblygu elfennau o waith y Gwasanaeth fel y cyfarwyddir gan Uwch Ymarferydd y Gwasanaeth Lles Ieuenctid
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru i gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac arfer gwrthwahaniaethol drwy'r gwaith a wneir yn y swydd
- Ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau eraill hynny sy'n ofynnol yn rhesymol gan y sefydliad ac sy'n gyson â'r radd.

**Dangosyddion Perfformiad**

- Yn gyfrifol am ddarparu dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth ac amcanion unigol.

**Cyfrifoldeb ychwanegol:**
Dim

**Cyfrifoldeb rheoli llinell:**
0

**Cyfrifoldeb rheoli'r gyllideb:**
£0

**Gradd:**
MS4

**Amodau gwaith:**

7 awr yr wythnos a all olygu rhywfaint o weithio ar benwythnosau a gyda'r nos ac aros oddi cartref yn achlysurol dros nos i fynychu cyfarfodydd, cynadleddau neu hyfforddiant.

Teithio i wahanol leoliadau gan gynnwys Caerdydd, y Fro a'r ardaloedd cyfagos e.e. Pontypridd, Abertawe a De Orllewin Cymru, ymweliad achlysurol â Gogledd Cymru a/neu leoliadau yn Lloegr.

**Cymwysterau**

- Amherthnasol

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cyfathrebu'n effeithiol
- Gweithio'n gyfforddus gyda phobl ifanc yn unigol neu mewn sefyllfaoedd grŵp
- Cyd-hwyluso gweithdai neu weithgareddau grŵp
- Hyrwyddo'r gwasanaeth mewn digwyddiadau rhwydweithio, cyfarfodydd a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd eraill
- Cynllunio, cofnodi a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad**

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos:

- Profiad o fod yn ffoadur neu'n geisiwr lloches fel plentyn neu berson ifanc
- Ymwybyddiaeth o'r broses lloches
- Dealltwriaeth o Ddiogelu

**Arall**

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo'n weithredol.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)
- Y gallu i siarad Ieithoedd Cymunedol (dymunol)